O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2373 (Cy.249)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Ffynnon Taf, Caerdydd i Gyfnewidfa Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed	*26 Medi 2011*
Yn dod i rym	*3 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd - Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2),** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Ffynnon Taf, Caerdydd i Gyfnewidfa Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 3 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A470 rhwng Cyfnewidfa Ffynnon Taf yn Sir a Dinas Caerdydd a Chyfnewidfa Nantgarw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.